| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **CYNGOR** |
| **Dyddiad:** | **7 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor** |
| **Pwrpas** | **Mabwysiadu Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2024 / 25** |
| **Awdur:** | **Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr** |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** | **Y Cynghorydd Menna Trenholme** |

## CEFNDIR

1. Ers 2012 mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwnnw yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.

2. Wrth fabwysiadu'r polisi ar gyfer 2012 / 13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn.

3. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2024 / 25 yn ei gyfarfod ar yr 21ain o Chwefror eleni, a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar yr 7fed o Fawrth.

## PRIF SWYDDOGION

4. Mae codiadau cyflog blynyddol ar gyfer swyddi prif swyddogion yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion. Mae'r rhain yn delerau cytundebol y mae'n rhaid i bob cyflogwr weithredu arnynt ac felly mae gan bob swyddog yr hawl i'r codiadau cyflog sy'n cael eu pennu. Gyda hyn mewn golwg, mae'r drafft polisi tâl yn datgan 'fod gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol presennol'. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl blynyddol felly, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog cenedlaethol hyn. Fis Mai 2023 cafwyd cadarnhad fod y cyflogwyr a'r undebau sydd yn cynrychioli prif swyddogion wedi dod i gytundeb ar gynnydd tâl ar gyfer y flwyddyn 2023/24, sef cynnydd blynyddol o 3.5% ar gyflog pob swyddog. Nid yw'r trafodaethau ar gyfer 2024/25 wedi dechrau eto.

## SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

5. Mae cyflogau staff sydd yn gweithio mewn swyddi o dan lefel prif swyddogion yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar Gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol. Yn union fel prif swyddogion, mae gan staff sydd yn gweithio i'r telerau hyn yr hawl cytundebol i'r codiadau cyflog sydd yn cael eu pennu. Wedi cyfnod hir o drafod daeth yr undebau a'r cyflogwyr i gytundeb ddechrau Tachwedd 2023 ar gynnydd o £1925 ar gyflog pob aelod staff hyd at bwynt cyflog 43, ac yna 3.88% ar y pwyntiau cyflog uwchlaw hynny. Nid yw'r trafodaethau ar gyfer 2024/25 wedi dechrau eto.

**Argymhelliad**

Bod y Pwyllgor yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tâl drafft i'r Cyngor fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2024/25.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gosod gofyn statudol ar y Cyngor i fabwysiadu Polisi Tâl blynyddol sydd yn cyfarch y gofynion yn y Ddeddf. Penderfyniad y Cyngor llawn yw hyn. Rwy'n fodlon fod y Polisi a argymhellir ar gyfer ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion yn cyfarch y gofynion statudol.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r adnoddau ar gyfer ariannu ymhlygiadau'r Polisi Tâl yma wedi'u darparu yn y Gyllideb ar gyfer 2024/25, sy'n eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma.